# DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB YR UNIGOLYN
# PRIF HWYLUSYDD – RHAGLEN ALLGYMORTH YSGOLION ‘BALLOON GIRL’

**TEITL Y SWYDD:** Prif Hwylusydd

**PROSIECT:** *Balloon Girl/ Arddangosfa Fawr Caerdydd 2026*

**NIFER Y DYDDIAU:** 22.5

**FFI:** £200 y dydd

**DYDDIAD DECHRAU:** 5 Mai 2026

## TROSOLWG:

Yn 2026 rydyn ni’n nodi 130 mlynedd ers i Gaerdydd gynnal **Arddangosfa Celfyddyd Gain a Diwydiannol 1896**, arddangosfa ryfeddol, ond sydd wedi’i hanghofio i raddau helaeth, a dathliad mawreddog o arloesedd Fictoraidd a ddenodd dros filiwn o ymwelwyr. Gan ddwyn ysbrydoliaeth o’r digwyddiad hanesyddol yma, mae **Rhaglen Ysgolion Arddangosfa Fawr Caerdydd 2026** yn gwahodd pobl ifanc i ailddarganfod pennod anghofiedig o stori eu dinas, dychmygu dyfodol newydd beiddgar a rhannu eu gweledigaeth drwy gelf, gwaith adrodd straeon a thechnoleg greadigol.

Wrth wraidd y prosiect mae ***Balloon Girl***, cynhyrchiad theatrig newydd gan **Hannah McPake** (Tilting at Windmills Productions), mewn partneriaeth â **Theatr y Sherman**. Bydd y cynhyrchiad yn gweithredu fel catalydd creadigol ar gyfer cynllun uchelgeisiol, gan ennyn diddordeb pobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd—mewn taith chwareus a dychmygus drwy hanes Caerdydd, ei phresennol a’i dyfodol posib. Bydd yn adlewyrchu'r ymdeimlad o drawsnewid a chyfle oedd yn ganolog i Arddangosfa Caerdydd 1896.

Drwy gyfuno hanes ymdrochol gyda’r dyfodol dychmygus, bydd y prosiect yn grymuso disgyblion i ddod **yn adroddwyr straeon**, **yn arloeswyr** ac **yn warcheidwaid treftadaeth Caerdydd**.

Gwnaed Rhaglen Allgymorth Ysgolion ‘Balloon Girl’ yn bosibl gan Gronfa Treftadaeth Loteri Genedlaethol.

## PRIF DDIBENION Y SWYDD:

Bydd y Prif Hwylusydd yn gweithio gyda'r tîm creadigol craidd a *Theatr y Sherman* i gynllunio rhaglen o weithgareddau mewn ysgolion, wedi'i theilwra ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Byddan nhw’n cefnogi’r gwaith o ddatblygu adnoddau addysgol ar gyfer disgyblion ac athrawon ac yn goruchwylio’r gwaith o gyflawni’r cynllun ochr yn ochr â’r cydymaith gweithdy. Byddan nhw’n meithrin ymdeimlad o gyffro a chwilfrydedd yn y dysgwyr ac yn eu grymuso i archwilio'r gorffennol, i wneud cysylltiadau â'r presennol ac i ddychmygu’r dyfodol gan ddefnyddio strategaethau ac offer digidol ac yn y byd go iawn. Bydd y Prif Hwylusydd hefyd yn cefnogi’r gwaith o werthuso'r prosiect.

Bydd yr oriau gwaith yn hyblyg gyda chyfarfodydd, digwyddiadau a gweithdai yn cael eu trefnu yn ôl yr angen.

## MANYLEB YR UNIGOLYN: PRIF HWYLUSYDD – RHAGLEN ALLGYMORTH YSGOLION 'BALLOON GIRL'

### HANFODOL

- Profiad o weithio gyda phobl ifanc 10 i 12 oed mewn amrywiaeth o leoliadau
- Profiad o gynllunio a darparu gweithdai a phrosiectau celfyddydol
- Y gallu i ysbrydoli pobl ifanc drwy ymagwedd greadigol at ddysgu
- Diddordeb yn hanes Caerdydd ac effaith arloesi
- Dealltwriaeth o ddarpariaethau ac arferion y Celfyddydau mewn Addysg.
- Sgiliau technoleg gwybodaeth rhagorol ac ymwybyddiaeth o botensial gofodau sydd wedi'u curadu'n ddigidol
- Sgiliau rheoli prosiect cryf
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog, yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Ymagwedd hyderus o ran cysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol a gweithio mewn partneriaeth
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol
- Ymrwymiad i gyfle cyfartal ac amrywiaeth ddiwylliannol

### DYMUNDOL

- Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- Profiad o weithio yng nghyd-destun theatr

## I WNEUD CAIS:

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y cyfle yma, anfonwch e-bost at *francesca.pickard@shermantheatre.co.uk* gan egluro pam mae gennych ddiddordeb yn y swydd a sut y byddai eich profiad yn berthnasol i'r prosiect.

**Dyddiad Cau: 5yh, Dydd Gwener 17 Ebrill 2026**

Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad yma os oes gennych gwestiynau, neu os hoffech siarad â rhywun yn anffurfiol am y swydd.

Rydyn ni am i'n tîm adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ledled y de-ddwyrain. Felly, rydyn ni'n estyn croeso arbennig i ymgeiswyr o gymunedau ethnig amrywiol a chymunedau B/byddar ac anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector ar hyn o bryd.

Noder, yn unol â'n polisi amgylcheddol, mai dim ond ceisiadau electronig y byddwn yn ymdrin â nhw.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

disability confident COMMITTED